

Cyfraniadau Ariannol 2013

Bydd Trysoryddion yr Eglwysi yn ddiolchgar i'r aelodau am anfon unrhyw gyfraniadau ariannol ar gyfer 2013 atynt mor fuan â phosibl.

Bydd lyfrau ariannol **Capel Coch** yn cau nos Sul, Rhagfyr 29.

Bydd yn help mawr i'r trysoryddion os gwnaiff aelodau **Ebeneser, Cefnywaun, Rehoboth a Nant Padarn** hefyd anfon eu cyfraniadau am 2013 atynt erbyn diwedd y flwyddyn.

Diolchwn am bob cyfraniad arfiannol a gafwyd yn ystod y flwyddyn a phwysleisiwn unwaith eto mor ddibynnol yw'r eglwysi ar gyfraniadau eu haelodau er mwyn cynnal yr Achos. Nid yw'r eglwysi yn derbyn unrhyw arian ond yr hyn y mae'r aelodau eu hunain yn ei gyfrannu.

Y mis nesaf - Deiniolen

Rhagfyr 15

10.00 a.m. - Gwasanaeth Nadolig y Plant
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 22

3.00 p.m. - Gwasanaeth Undebol
Naw Llith a Charol
yn Eglwys Llandinorwig
ar gyfer eglwysi'r pentref

Rhagfyr 29

Dim oedfa

Y mis nesaf - Llanberis

Rhagfyr 15

10.00 a.m. - Mr John H Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

Rhagfyr 22

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa Nadolig Plant yr Ysgol
Sul + Parti Nadolig y plant

Rhagfyr 29

10.00 a.m. a 5.00 p.m. -



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 571- Dydd Sul, 15 Rhagfyr 2013

Wythnos dau ddydd

Wythnos yn ôl, petaech chi wedi cynnig miliwn o bunnoedd i mi fyddwn i ddim wedi gallu dweud wrthyhch pwy oedd Thamsanqa Jantjie na Jang Song Thaek. Ond bu llawer o sôn am y ddau erbyn diwedd yr wythnos.

Faint bynnag o sylw a gafodd Barack Obama, Ban Ki-moon, Jacob Zuma, Desmond Tutu ac eraill a gymerodd ran yn y cyfarfod coffa i Nelson Mandela yn Soweto ddydd Mawrth, cafodd Thamsanqa Jantjie fwy. Dyma'r gwr a a safai ar y llwyfan yn 'cyfieithu' yr hyn a ddywedwyd i iaith arwyddion. Daeth yn amlwg wedi hynny nad oedd unrhyw synnwyr i'r arwyddion a wnâi'r dyn hwn. Ac mae'r hyn a ddatgelwyd ers hynny am wahanol gyhuddiadau a wnaed yn ei erbyn dros y blynyddoedd wedi peri pryder ynghylch y perygl y gallasai rhai o arweinwyr amlyca'r byd fod ynddo'r diwrnod hwnnw.

Un arweinydd sydd am sicrhau nad yw mewn unrhyw fath o berygl yw Kim Jong-un yng Ngogledd Corea. Ddydd Iau diwethaf, ddyddiau'n unig wedi iddo gael ei esgymuno'n gyhoeddus o Blaid y Gweithwyr Corea cafodd Jang Song Thaek, ewythr yr arweinydd, ei ddienyddio wedi iddo gael yn euog o gynllwynio yn erbyn yr arweinydd a cheisio'r grym iddo'i hun. Roedd y modd y gwnaed y cyfan o fewn tri neu bedwar diwrnod yn ddychryn mawr i bawb a glywodd y stori, a does wybod pa ddial creulon pellach y bydd unrhyw un a oedd yn gysylltiedig â Jang Song Thaek yn ei wynebu.

Yn ystod yr wythnos y rhoddwyd y fath sylw i Nelson Mandela dangosodd Kim Jong-un (yn gwbl anfwriadol wrth gwrs) arweinydd mor arbennig oedd y gwr a gaiff ei gladdu heddiw. Cymod, maddeuant a thegwch oedd yn nodweddu'r arweiniad a roes hwn i'w wlad, a gweddiwn y bydd De Affrica a'i phobl yn dal i ffynnu ac y bydd yr egwyddorion a gynrychiolir gan Mandela yn cael mwy a mwy o le ym mywyd a llywodraeth y wlad honno. Gweddiwn hefyd dros bobl Gogledd Corea sy'n byw dan lywodraeth un y mae'n rhaid ymestwng yn llwyr iddo a'i ddyrchafu yn ben uwchlaw pawb a phopeth a phob egwyddor. Gweddiwn dros y bobl sydd mewn ofn a dychryn ac sydd mewn gwir berygl yn y wlad honno. A gweddiwn yn arbennig dros Gristnogion y wlad honno sy'n cael eu herlid yn gyson oherwydd eu ffydd. Os mai fel y gwelwom ddydd Iau y mae Kim Jong-un yn delio â'i deulu ei hun pa ryfedd fod Cristnogion yn wynebu erledigaeth greulon â'r arweinydd ei hunan yn cael ei arddel fel duw?

A beth bynnag y gwir am Thamsanqa Jantjie a'i allu, neu ei ddiffyg gallu, i siarad iaith arwyddion, mae'n debyg nad oedd yn fygythiad i'r bobl ar y llwyfan ddydd Mawrth. Perygl y dyn oedd ei fod yn ei gwneud yn amhosibl i bobl fyddar ddeall yr hyn a ddywedid yn ystod y cyfarfod. Gweddiwch na fyddwn ni sy'n cyflwyno'r Efengyl yn ei gwneud yn anodd i bobl ddeall y gwir am eni a marw ac atgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso i oedfaon Sul arall. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad trwy'r dydd.

Gwasanaeth Nadolig y Plant sydd yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch heddiw, ac estynnwn groeso cynnes i bawb i'r oedfa gan ddiolch i athrawon yr Ysgol Sul am baratoi'r gwasanaeth. Byddaf yn arwain yr oedfa am 5.00 o'r gloch.

Gwasnaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr John H Hughes. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones, Pwllheli a estynnwn groeso cynnes iddo atom unwaitho eto.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Penblwydd Arbennig 100 oed!

Ddydd Sul nesaf. Rhagfyr 22, bydd Mr John Morris, Rhiwen, Deiniolen yn dathlu ei ben blwydd yn 100 oed, a dymunwn ben blwydd hapus arbennig iawn iddo ar ran aelodau Cefnywaun ac Ebeneser a phawb sy'n gysylltiedig â'r eglwysi. Bydd yr wythnos nesaf yn sicr yn wythnos brysur iddo, a dymunwn bob bendith a dymuniad da i Mr Morris ar ddiwrnod mor arbennig, yn arbennig o gofio'r iechyd da a fwynhaodd ar hyd y blynyddoedd. Mae'n garreg filltir nodedig iddo ef a'r teulu. Dymuniadau gorau i chi oddi wrth bawb ohonom.

Rhodd

Mae CIC Llanberis wedi derbyn rhodd hael iawn oddi wrth Bwyllgor Carnifal Llanberis. Cyflwynwyd i-pad i Andrew a rhai o'r hogiau nos Fawrth diwethaf, ac yr ydym yn hynod o ddiolchgar i'r pwyllgor am feddwl amdanom a rhoi'r adnodd gwerthfawr hwn i ni. Edrychwn ymlaen at ei ddefnyddio rŵan.

Naw Llith a Charol Llanberis

Bydd Gwasanaeth Naw Llith a Charol undebol yn Eglwys Sant Padarn am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth, Rhagfyr 17.

Sylwch mai 7.00 o'r gloch yw'r amser cywir, ac nid 7.30 fel a ddywedwyd yn *Eco'r Wyddfa*.

Bydd yn gyfle i eglwysi'r pentref ddathlu'r Nadolig gyda'i gilydd. Gwneir casgliad at Gynllun Efe yn yr oedfa hon eleni eto.

Naw Llith a Charol Deiniolen

Bydd Gwasanaeth Naw Llith a Charol undebol yn Eglwys Llandinorwig am 3.00 o'r gloch, ddydd Sul, Rhagfyr 22 ac estynnir croeso cynnes i bawb i ddathlu Gŵyl y Geni gyda'n gilydd.

Bydd yn gyfle i'r eglwysi yn Neiniolen ddod ynghyd eto i gydaddoli.

Ni fydd oedfa yn Neiniolen y noson honno gan mai'r gwasanaeth undebol hwn fydd ein hoedfa ni wrth gwrs.

CICDolig

Bydd hogiau CIC Llanberis yn mynd i Lanerchymedd fore Gwener nesaf, Rhagfyr 20 ar gyfer ei gweithgarwch diwedd tymor. Byddant yn mynd yno i'r ganolfan Paintball.

Mae angen rhoi gwybod i Andrew m=ar unwaith os ydych am ddod gan fod criw CIC Llanrug yn dod hefyd ac mae angen rhoi gwybod i'r ganolfan ymlaen llaw faint sy'n dod.

Mae angen bod yno erbyn 10.00 o'r gloch. Ffoniwch Andrew am ragor o fanylion ac i roi eich enw.

Dosbarth Beiblaidd

Cynhaliwyd cyfarfod olaf Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth nos Fercher. Byddwn yn ail ddechrau'r cyfarfod yn y flwyddyn newydd.

Gwefan

Cofiwch bod gwefan Gronyn yn cael ei diweddar bob wythnos. Ymysg y pethau di=wetddar mae lluniau o'r Cinio Cawl (ewch i 'Yr Eglwysi' - ac yna 'Nant Padarn'.

Parti Nadolig

Mae rhestr fwyd yng nghyntedd Capel Coch heddiw er mwyn i bobl nodi arni beth sy bosibl iddyn nhw ei gyfrannu at Barti Nadolig y Plant nos Sul nesaf. Diolch ymlaen llaw am bob cyfraniad.

Noson Garolau

Cynhaliwyd Cyfarfod Carol yn Capel Coch dan nawdd Cymdeithas Undebol Llanberis nos Fawrth ddiwethaf. Diolch i barti Ffrindiau Bytholwyrdd am eu rhan yn y cyfarfod. Roedd y parti dan arweiniad Mrs Mattie Hughes a Mrs Bethan Holding oedd yn cyfeilio i'r parti ac i'r carolau cynulleidfaol. Roedd gweddill yr oedfa dan arweiniad y Gweinidog. Cafwyd paned a lluniaeth, a diolch yn fawr iawn i bawb a oedd wedi paratoi'r lluniaeth hwnnw ar ein cyfer. Gwnaed casgliad at Apêl Trychineb y Pilipinas a chasglwyd £82.25.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 22: Cynhelir Gwasanaeth Naw Llith a Charol undebol yn Eglwys Llandinorwig am 3.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fawrth, Rhagfyr 17: Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn Eglwys Sant Padarn am 7.00 o'r gloch.

Dydd Gwener, Rhagfyr 22: Criw CIC yn mynd i chwarae Paintball yn Sir Fôn.

Dydd Sul, Rhagfyr 22: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant. Cynhelir Parti Nadolig y Plant ar ôl yr oedfa.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 22: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.